

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU

Diben y tabl atodedig yw darparu gwybodaeth am darddiad y darpariaethau sydd ym Mil Tai (Cymru). Nid yw'r tabl yn cynnig arweiniad diffiniol nac ychwaith arweiniad cynhwysfawr, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Bil a'r nodiadau esboniadol am y Bil.

ALLWEDD I'R BYRFODDAU

- P. – paragraff
- Rh. – rheoliad
- A. – adran
- Aau. – adrannau
- At. – Atodlen
- GC – Gweinidogion Cymru
- Y Bil – Bil Tai (Cymru)

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
RHAN 1: RHEOLEIDDIO TAI RHENT PREIFAT		
1 - 35	Newydd	
RHAN 2: DIGARTREFEDD		
PENNOD 1 – DIGARTREFEDD		
36	Mae Aau. 36-38 yn tarddu o Aau. 1-3: Deddf Tai 2002. Mae A. 3 yn tarddu o A.1. Mae'r ddyletswydd i lunio strategaeth wedi'i hegluro ac mae amserlen glir wedi'i hychwanegu. Rhoddwyd pŵer newydd i GC i newid yr amserlen. Mae ystyr "digartref" yn tarddu o A. 175: Deddf Tai 1996.	Ydy
37	A. 2: Deddf Tai 2002. Mae'r geiriad wedi'i foderneiddio	Nac ydy
38	A. 3: Deddf Tai 2002. Mae'r geiriad wedi'i foderneiddio	Nac ydy
PENNOD 2 – HELP I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD		
39	Newydd	
40	Newydd	
41	A. 175: Deddf Tai 1996. Y prif newid yw bod y cyfnod ar gyfer bod dan fygythiad o ddigartrefedd wedi ymestyn o 28 i 56 diwrnod.	Ydy
42	A. 176: Deddf Tai 1996.	Nac ydy

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
43	<p>A. 177: Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae'r cyfeiriad at "drais yn y cartref neu drais arall" wedi'i ddiweddarau i "cam-drin yn y cartref neu gam-drin arall", a gaiff yna ei ddiffinio. Cafodd hyn ei ddiweddarau i adlewyrchu'r ffordd y mae cyfraith achosion wedi dehongli'r Ddeddf. Ychwanegwyd cyfeiriad at "fforddiadwyedd". Mae hyn yn tarddu o OS 1996/3204 – Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 1996.</p>	Ydy
44	A. 178: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
45	<p>A. 210: Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae'r adran hon wedi'i moderneiddio a'i hymestyn er mwyn ei gwneud yn haws i'w darllen. Ychwanegwyd cyfeiriad at Ran 10'r Bil (Sector Rhent Preifat).</p> <p>Yn A.45(2), ychwanegwyd cyfeiriad at "fforddiadwyedd". Mae hyn yn tarddu o OS 1996/3204 – Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 1996.</p>	Ydy
46	<p>A. 179: Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae'r adran hon wedi'i chryfhau a'i moderneiddio. Yn benodol, sicrhawyd ei bod yn unol â darpariaeth yn A.8 o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), fel y gellir integreiddio gwasanaethau.</p> <p>Nid yw Adrannau 180 a 181 o Ddeddf Tai 1996 wedi'u dyblygu. Rhoesant bwerau i Weinidogion y Llywodraeth ac awdurdodau lleol i helpu sefydliadau gwirfoddol, a darparu ar gyfer telerau'r cymorth. Nid yw'r rhain wedi'u dwyn ymlaen gan na chânt eu hystyried mwyach yn angenrheidiol o ganlyniad i'r pwerau ehangach sydd ar gael i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ac i GC o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.</p>	Ydy
47	<p>A. 185-187: Deddf Tai 1996.</p> <p>Ni fu unrhyw newid sylweddol, ond mae'r prif ddarpariaethau wedi'u symud i Atodlen 2 i'r Bil.</p>	Nac ydy

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
48	<p>Newydd ond yn seiliedig ar A. 183-184: Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae'r "ddyletswydd i asesu" yn cael ei gwneud yn eglur gan y Bil ac mae bellach yn debyg i hynny yn Aau. 10 a 12 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).</p> <p>Fodd bynnag, mae'r newidiadau sylweddol yn fychan ac wedi'u hanelu at gywiro esgeulustra yn Neddf Tai 1996.</p> <p>Mae A. 48(1)(a) yn ei gwneud yn glir bod y ddyletswydd yn codi mewn achos lle mae person yn ceisio cael cymorth i gadw llety. Mae Deddf Tai 1996 ond yn cyfeirio at 'gael' llety.</p> <p>Mae A.48(2) yn ei gwneud yn glir nad oes rhaid i awdurdod lleol ailadrodd yr asesiad os nad yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid.</p>	
49	<p>A.184: Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae'r ddarpariaethau hysbysu wedi'u gwahanu o A. 184 i adran ar wahân.</p> <p>Yr unig newid sylweddol yw bod hyn bellach yn cyfeirio at "ganlyniad asesiad" yn lle "cwbllhau ymholiadau".</p>	Ydy
50	Newydd	
51	Newydd	
52	<p>A.195: Deddf Tai 1996.</p> <p>Y prif newidiadau yw bod y ddyletswydd i helpu i atal digartrefedd bellach yn glir ac yn gymwys i bob ymgeisydd cymwys sydd dan fygythiad o ddigartref. Gan ei bod yn ddyletswydd symlach, mae'r ddarpariaeth newydd hefyd yn symlach.</p> <p>Mae Aau. 50 a 51 y Bil yn nodi ffyrdd i helpu.</p>	Ydy
53	<p>Newydd.</p> <p>Yn Neddf Tai 1996, nid oedd yn glir sut roedd y ddyletswydd hon yn dod i ben.</p>	

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
54	<p>Mae'r adran hon yn newydd ond yn seiliedig ar A.188; 190; 193(2) a (3); a 200(1): Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae'r Bil yn cyfuno ac yn egluro nifer o ddyletswyddau yn Neddf Tai 1996 i ddarparu llety interim neu dros dro.</p> <p>Mae A.54 y Bil yn ailadrodd y ddarpariaeth yn A.188 o Ddeddf Tai 1996 ynghylch llety interim ar gyfer achosion ag angen blaenoriaethol sy'n aros am benderfyniad o ran dyletswyddau.</p> <p>Mae A.54 o'r Bil hefyd yn ychwanegu darpariaeth ar gyfer llety interim i'r achosion hyn barhau tan fod y dyletswyddau perthnasol yn dod i ben. Mae'n ychwanegu'r dyletswyddau i ddarparu llety dros dro o'r adrannau canlynol yn Neddf Tai 1996:</p> <p>A.190: llety dros dro i'r achosion hynny ag angen blaenoriaethau sy'n ddigartref yn fwriadol. Yn y Bil, mae'r ddyletswydd hon yn gyfyngedig i 56 diwrnod.</p> <p>A. 193(2) a (3). Mae'r ddyletswydd hon yn Neddf Tai 1996 ynghylch y dyletswyddau sy'n ddyledus i ymgeiswyr sydd ag angen blaenoriaethol. Mae'r Bil yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid canfod llety i ymgeiswyr sydd ag angen blaenoriaethol ac y mae'r ddyletswydd tai llawn yn ddyledus iddynt, tra'n aros i ganfod ateb o ran tai iddynt.</p> <p>A.200(1). Mae'r adran hon yn nodi bod yn rhaid darparu llety interim os yw ymgeisydd wedi'i gyfeirio at awdurdod lleol arall i gael ei gartrefu. Nid yw'r Bil yn newid hyn ond mae'n ei gyfuno â'r darpariaethau cysylltiedig eraill.</p>	
55	<p>A.189: Deddf Tai 1996 ac OS 2001/607: Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001.</p> <p>Mae'r Bil yn cyfuno'r categorïau 'angen blaenoriaethol' o A, 189 o Ddeddf Tai 1996 ac o Orchymyn a wnaed o dan yr adran honno.</p> <p>Mae'r Bil yn cynnwys un newid o OS 2001/607: Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 sy'n newid i'r statws angen blaenoriaethol cyn-garcharorion.</p>	Ydy

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
	Ar hyn o bryd, maent mewn 'angen blaenoriaethol' os ydynt wedi bod yn ddigartref ers gadael y carchar, ar yr amod bod ganddynt gysylltiad lleol â'r ardal. Mae'r Bil yn diwygio hyn fel y byddant ond ag angen blaenoriaethol os ydynt yn agored i niwed o ganlyniad i'w cyfnod yn y carchar.	
56	Newydd	
57	Newydd	
58	Newydd ond yn seiliedig yn rhannol ar y ddyletswydd yn A.193: Deddf Tai 1996 i sicrhau llety i ymgeiswyr sydd ag angen blaenoriaethol ac sy'n ddigartref yn anfwriadol. Fodd bynnag, mae hyn yn wahanol i'r ddyletswydd honno mewn nifer o ffyrdd.	
59	Newydd ond yn seiliedig yn rhannol ar orffen y ddyletswydd yn A.193: Deddf Tai 1996 i sicrhau llety i ymgeiswyr sydd ag angen blaenoriaethol ac sy'n ddigartref yn anfwriadol. Fodd bynnag, mae'n wahanol i'r ddyletswydd honno mewn nifer o ffyrdd. Mae A.59(5) yn tarddu o A. 193(7AD) o Ddeddf Tai 1996 ar gyfer achosion 'cyfyngedig'.	
60	A.191: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
61	Newydd	
62	Newydd	
63	A.198: Deddf Tai 1996 Mae'r cyfeiriad at 'drais' wedi'i ddiweddarau i 'gam-drin'. A. 63(6)(b) o'r Bil – Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a GC wedi'u gwneud ar y cyd mewn achosion sydd ar draws y ffin. A. 63(8) o'r Bil – Mae GC wedi cael pŵer newydd i ychwanegu amgylchiadau lle caiff yr amodau ar gyfer cyfeirio eu bodloni neu beidio.	Ydy
64	A.199: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
65	A.200: Deddf Tai 1996. Nid yw'r Bil yn nodi'n fanwl y ddyletswydd yn A. 200(2): Deddf Tai 1996, i hysbysu'r ymgeisydd, gan fod hyn bellach yn adran 67 o'r Bil.	Ydy

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
	Nid yw A. 200(3) a (4): Deddf Tai 1996 wedi'u hailadrodd o ran awdurdodau lleol Cymru. Yn hytrach, gan A.65 (3) a (4) byddant yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan A.56 o'r Bil i helpu i ddod â digartrefedd person i ben.	
66	A.200: Deddf Tai 1996. Mae A.66 o'r Bil yn gyfyngedig i'r achosion hynny a gafodd eu cyfeirio o Loegr. Yn ychwanegol, mae'r ddyletswydd sy'n ddyledus gan awdurdodau Cymru o dan A.56 o'r Bil.	Ydy
67	Newydd. Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y dyletswyddau i hysbysu mewn un lle yn y Bil.	
68	A.202: Deddf Tai 1996. Mae'r darpariaethau adolygu yn cyfeirio at y penderfyniadau gan awdurdod lleol o dan y Bil, ond nid oes newidiadau sylweddol.	Nac ydy
69	A.203: Deddf Tai 1996. Mae'r darpariaethau adolygu yn cyfeirio at y penderfyniadau gan awdurdod lleol o dan y Bil, ond nid oes newidiadau sylweddol.	Nac ydy
70	Newydd	
71	A.204: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
72	A.204A: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
73	A.206(2): Deddf Tai 1996.	Nac ydy
74	A.208: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
75	A.209: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
76	A.211: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
77	A.212: Deddf Tai 1996. Roedd y pŵer i fynd i mewn yn A. 212(1) yn ymddangos yn ddiffygion. Felly, ychwanegwyd darpariaethau newydd fel a ganlyn: Mae A.212(2) yn darparu bod yn rhaid i swyddog sy'n defnyddio'r hawl i fynd i mewn ddangos awdurdod os gofynnir amdano. Mae A.212(3) yn darparu bod person sy'n rhwystro person rhag cyflawni'r ddyletswydd yn cyflawni trosedd.	Ydy

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
78	<p>A.213: Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae'r ddyletswydd o gydweithredu yn A.78(2) wedi'i aralleirio, fel bod yn rhaid i'r cyrff dan sylw gydweithredu, oni bai ei fod yn anghydnaws â'u dyletswyddau neu y byddai'n cael effaith andwyol arnynt yn cyflawni eu swyddogaethau.</p> <p>Mae dyletswydd newydd ar y cyrff hyn, yn A.78(4), i roi rhesymau ysgrifenedig dros wrthod cydweithredu.</p> <p>Nid yw A.78 yn ailadrodd dyletswyddau cyrff tai yn yr Alban, er ei bod yn cadw'r trefniadau trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr.</p>	Ydy
79	<p>A.213A: Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae'r darpariaethau yn Neddf Tai 1996 wedi'u diwygio i adlewyrchu'r ffaith bod pob awdurdod tai yng Nghymru yn awdurdod unedol.</p>	Nac ydy
80	<p>A.214: Deddf Tai 1996.</p> <p>Yn A.80(4), mae'r baich o brofi bod y diffynnydd wedi cael yr eglurhad sy'n ofynnol gan A80(3) yn cael ei roi ar yr erlynydd yn hytrach na'r diffynnydd.</p> <p>Yn A.80(5) mae lefel y ddirwy wedi gostwng o lefel 5 ar y Raddfa Safonol yn Neddf Tai 1996 i lefel 4 yn y Bil. Mae hyn yn rhagweld newidiadau i'r Raddfa Safonol.</p>	Ydy
81	<p>A.182: Deddf Tai 1996.</p> <p>Mae A. 81 o'r Bil yn moderneiddio A.182, ac yn gwneud darpariaeth fanylach am newidiadau i ganllawiau a chyhoeddi canllawiau.</p>	Ydy
82	Newydd. Mae'r adran hon yn delio â dehongli Rhan 2 o'r Bil. Ar gyfer dehongli Deddf Tai 1996, gweler A.218 am hynny.	
83	Newydd	
RHAN 3: SIPSIWN A THEITHWYR		
84 - 93	Newydd	
RHAN 4: SAFONAU AR GYFER TAI CYMDEITHASOL		
94	Newydd	
95	Newydd	
96	Newydd	
97	Newydd	
98	Newydd	
99	Newydd	
100	Newydd	

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
101	Newydd	
102	Newydd	
103	Newydd	
104	Newydd	
105	Newydd	
106	Newydd	
107	Newydd	
108	Newydd	
109	Newydd	
110	Newydd	
111	<p>A. 25: Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985</p> <p>Mae'n cael gwared ar y ddarpariaeth trosedd bresennol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru am fethu â darparu gwybodaeth. Mae adran 111 yn esbonio hefyd nad yw'r drosedd yn gymwys i awdurdodau tai lleol yng Nghymru.</p>	
112	<p>A. 26 Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1985</p> <p>Diwygio A 26 (1) o Ddeddf 1985 Act i gymhwyso'r ddyletswydd i awdurdod lleol yng Nghymru.</p>	
113	Ddim yn gymwys	
RHAN 5: CYLLID TAI		
114	<p>Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989: Rhan 6</p> <p>Adrannau. 79, 80, 80ZA, 80A, 80B, 85 ac 86</p> <p>Atodlenni 4: Rhan 1, Rhan 2 a Rhan 3</p> <p>Diwygir yr adrannau a'r atodlen hyn er mwyn gallu diddymu'r cynllun Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai yng Nghymru.</p>	Ydy
115	Newydd	
116	Newydd	
117	<p>Mae A 117 (8) yn darparu newid technegol i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989: Atodlen 4, Rhan 2, Eitem 5A</p> <p>Newid technegol</p>	Nac ydy
118	Newydd	
119	Newydd	

BIL TAI (CYMRU) – TABL TARDIADAU		
ADRAN/ PARAGRAFF	CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES	NEWID SYLWEDDOL?
RHAN 6: CANIATÁU I GYMDEITHASAU TAI CYDFUDDIANNOL LLAWN I ROI TENANTIAETH SICR		
120	Newydd	
121	Newydd	
RHAN 7: Y DRETH GYNGOR AR GYFER ANHEDDAU GWAG		
122	Newydd	
RHAN 8: AMRYWIOL A CHYFFREDINOL		
123	Newydd	
124	Newydd	
125	Newydd	
126	Newydd	
127	Newydd	
128	Newydd	
ATODLEN 1: COFRESTRU O DAI RHENT PREIFAT: RHAN 1 CYNNWYS Y GOFRESTR		
1 -2	Newydd	
ATODLEN 1: RHAN 2: MYNEDIAD I'R GOFRESTR		
3 – 5	Newydd	
ATODLEN 2: CYMHWYSEDD AR GYFER CYMORTH O DAN BENNOD 2 O RAN 2		
1	A.185: Deddf Tai 1996. Yr unig newid perthnasol i hyn a'r adrannau canlynol yw'r rhai sy'n angenrheidiol i ddatod cyfraith Cymru o gyfraith Cymru a Lloegr bresennol.	Nac ydy
2	A.186: Deddf Tai 1996.	Nac ydy
3	A.187: Deddf Tai 1996.	Nac ydy